Creu baner ddwyieithog i annog gyrwyr i ddiffodd eu hinjans

Canllaw i athrawon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwrpas

Dylai'r gweithdy hwn helpu disgyblion i wneud y canlynol:

- deall beth mae segura llonydd yn ei olygu
- deall mwy ynghylch pam mae aer glân yn bwysig i bawb
- archwilio sut y gall llygredd cerbydau effeithio ar yr aer o amgylch eu hysgol
- meddwl am gamau cadarnhaol y gall gyrwyr eu cymryd
- creu baner glir, liwgar sy'n annog gyrwyr i ddiffodd eu injans pan fyddan nhw wedi parcio.

Dylai'r sesiwn fod yn gadarnhaol ac yn greadigol. Nid gwneud i blant deimlo'n gyfrifol am ddatrys llygredd aer na beirniadu gyrwyr unigol yw'r nod. Yn lle hynny, anogwch ddisgyblion i feddwl am sut y gall pawb helpu i wneud yr aer o amgylch yr ysgol yn lanach, gyda ffocws penodol ar segura diangen.

Cynllun sesiwn enghreifftiol:

1. Cyflwyno aer glân

Dechreuwch drwy ofyn:

- **Beth mae aer glân yn ei olygu?**
- **Beth yw llygredd aer?**
- **Pa fathau o gerbydau rydych yn eu gweld y tu allan i'n hysgol?**

Rhowch gyfle i ddisgyblion rannu eu syniadau. Esboniwch mewn termau syml.

Mae'r aer o'n cwmpas yn cynnwys nwyon a gronynnau bach iawn. Mae llygredd yn gallu bod mor fach na allwn ni ei weld, ond gallwn ni ei anadlu i mewn. Gall fynd i mewn i'n cyrff ac effeithio ar ein hiechyd. Gall achosi asthma a gwneud y cyflwr hwnnw'n waeth, a gall effeithio ar eich gallu i ddysgu.

Cwestiynau i sbarduno trafodaeth

Cadwch yr adran hon yn fyr. Y pwrpas yw darparu digon o gyd-destun ar gyfer y gweithgaredd creadigol.

- A allwn ni bob amser weld llygredd aer?
- O ble gall llygredd aer ddod?
- Pa fath o gerbydau rydyn ni'n eu gweld ar bwys ein hysgol?
- A oes adegau pan fydd llawer o gerbydau y tu allan?

2. Archwiliwch o ble mae llygredd aer yn dod

Siaradwch â disgyblion neu dangoswch luniau o ffynonellau llygredd posibl neu gofynnwch iddyn nhw awgrymu rhai. Ewch ati i nodi sawl ffynhonnell, gan gynnwys cerbydau, diwydiant, ffermio, tanau a hyd yn oed gweithgareddau y tu mewn i'r cartref (e.e. chwistrellau neu nwyddau ymolchi ag arogl cryf, stofiau llosgi pren a thanau agored).

Esboniwch y gall cerbydau fel ceir, faniau a lorïau gyfrannu at lygredd aer. Pwysleisiwch fod llygredd aer yn dod o amrywiaeth o ffynonellau a bod diffodd injans wrth aros yn un cam syml a all helpu.

3. Egluro segura llonydd

Gofynnwch i'r disgyblion:

Ydych chi erioed wedi gweld cerbyd wedi'i barcio gyda'i injan yn dal i redeg?

Eglurwch:

Segura llonydd yw pan fydd cerbyd petrol neu diesel wedi stopio ond mae ei injan yn dal i redeg. Nid oes gan gerbydau trydan injans petrol neu diesel, felly nid ydyn nhw'n segura yn yr un modd.

Gallech ofyn i ddisgyblion efelychu sŵn injan yn dawel ac wedyn stopio pan fyddwch chi'n dweud, **"Os ydych chi'n aros yn eich car, diffodd!"**

Awgrymiadau i sbarduno trafodaeth

- Ydych chi wedi sylwi ar gerbydau sy'n aros y tu allan i'r ysgol gyda'u hinjans yn rhedeg?
- Pam byddai rhywun yn gadael injan yn rhedeg?
- Beth allwn ni ei wneud i annog gyrwyr i ddiffodd eu hinjans?
- Sut gallwn ni ofyn iddyn nhw ddiffodd mewn ffordd gyfeillgar ac adeiladol?
- Beth fyddai'n tynnu sylw rhywun at neges y tu allan i ysgol?

Peidiwch â gadael i'r sgrws fynd yn feirniadol.

4. Cysylltu'r broblem â'r ysgol

Gofynnwch i ddisgyblion feddwl am yr ardal y tu allan i'w hysgol:

- Beth sy'n digwydd ar adegau gollwng a chodi?
- Ble mae cerbydau fel arfer yn aros?
- Oes mannau lle na ddylai cerbydau stopio neu aros, er enghraifft ger croesfannau, corneli neu fynedfeydd ysgolion?
- Pwy fydd yn gweld y faner?
- Pa gamau rydyn ni am i yrwyr eu cymryd?

Eglurwch fod gan y faner bwrpas syml:

Gallwn ni i gyd helpu i gadw ein haer yn lân. Mae gadael i injan redeg pan fydd cerbyd wedi stopio yn cynhyrchu llygredd diangen. Cam syml y gall gyrwyr eu cymryd pan fyddan nhw wedi parcio neu'n aros yw diffodd eu hinjan.

Dylai disgyblion feddwl am ddelweddau gwahanol, ond dylai neges ganolog y faner ganolbwyntio ar segura.

5. Creu negeseuon baner dwyieithog

Ysgrifennwch awgrymiadau'r disgyblion ar y bwrdd. Anogwch negeseuon:

- byr
- cadarnhaol
- cwrtais
- hawdd eu darllen
- sy'n canolbwyntio ar un cam
- y gellir eu deall o bell
- yn Gymraeg neu Saesneg.

Dewis y neges

Gallai'r dosbarth wneud y canlynol:

- pleidleisio dros eu hoff neges
- cyfuno dau syniad
- gweithio mewn grwpiau ar negeseuon gwahanol
- defnyddio un neges y cytunwyd arni wrth ddatblygu gwahanol ddyluniadau gweledol.

Osgoi gwneud y broses yn rhy gystadleuol oni bai y cytunwyd ar gystadleuaeth fel rhan o'r peilot.

Negeseuon allweddol i athrawon

Gall athrawon ddychwelyd at y pwyntiau syml hyn drwy gydol y gweithdy:

1. Mae aer glân yn bwysig i bawb.
2. Mae llygredd aer yn effeithio ar bawb a'r amgylchedd.
3. Mae cerbydau'n creu llygredd aer.
4. Mae segura llonydd yn golygu gadael i injan redeg pan nad yw'r cerbyd yn symud.
5. Mae diffodd injan pan fyddwch wedi parcio, lle bo hynny'n briodol, yn gam cadarnhaol y gall gyrwyr ei gymryd.
6. Mae baner dda yn defnyddio neges fer, gyfeillgar ac iddi ddyluniad trawiadol.

7. Gall plant helpu drwy rannu syniadau.
8. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn ceisio gwneud y peth iawn. Gall pawb helpu i gadw'r aer o amgylch yr ysgol yn lanach.

Dilynwch y dolenni canlynol am ragor o wybodaeth:

Mynd i'r afael â segura llonydd | LLYW.CYMRU

Llygredd Aer | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Llosgi tanwydd solet domestig | LLYW.CYMRU

6. Cynllunio'r faner

Y geiriau

- A yw'r brif neges yn gryno ac yn glir?
- A yw'r geiriau pwysicaf yn fawr?
- A all rhywun ei deall yn gyflym?
- A yw'n hawdd ei darllen
- A yw'n gofyn am gam cadarnhaol?
- A yw'r geiriau a'r llun yn gweithio gyda'i gilydd?
- A fyddai'n denu sylw y tu allan i'r ysgol?
- A yw'r sillafu yn gywir?
- A yw'n ddwyieithog gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg?

Y cynllun

- Defnyddiwch lythrennau mawr, trwm.
- Defnyddiwch liwiau cryf, cyferbyniol.
- Peidiwch â llenwi'r faner â gormod o eiriau.
- Gadewch le o amgylch y brif neges.
- Gwnewch yn siŵr bod y neges yn glir ar yr olwg gyntaf.

Esboniwch fod rhaid deall baner a arddangosir y tu allan yn gyflymach na phoster yn yr ystafell ddosbarth.

Fformat a dyluniad:

- Os oes modd, defnyddiwch dempled A3 ar draws. Bydd yn cael ei addasu i faner awyr agored fwy yn nes ymlaen.
- Dylai unrhyw destun sydd wedi'i gynnwys ar y faner derfynol fod yn ddwyieithog. Fel arall, gellid creu dyluniadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

- Dylai pob dyluniad fod yn ddau ddimensiwn neu'n "fflat" – dim arwynebau anwastad, dim gwlân cotwm, gliter ac ati.
- Dylech ddefnyddio lliwiau llachar gan mai nhw sy'n atgynhyrchu orau.
- Dylech osgoi cefndir tywyll.
- Dylid gadael lle ar gyfer logo priodol Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei ychwanegu at y faner derfynol.

Baner enghreifftiol:



Wedi'i gynllunio gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Maerun fel rhan o brosiect gwrthsegura lleol wedi'i gynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd, gyda chymorth gan Gronfa Rheoli Ansawdd Aer Leol Llywodraeth Cymru.

7. Defnyddio AI

Os defnyddir offerynnau AI, dylai ysgolion eu defnyddio mewn modd cyfrifol a bod yn ymwybodol o faterion fel rhagfarn, cywirdeb a phreifatrwydd. Ni ddylid uwchlwytho ffotograffau neu wybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â disgyblion i offerynnau AI. Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n annog ysgolion i ddefnyddio syniadau a gwaith celf disgyblion eu hunain yn nyluniad y faner derfynol.

Gwybodaeth ac adnoddau ychwanegol:

- Education Landing | DrupalHwb
- Y Ddirwy am adael i injan redeg yn fwy na threblu wrth i Gymru fynd i'r afael â llygredd aer | LLYW.CYMRU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â:

PolisiAnsawddAer@llyw.cymru